## TRAWSNEWIDIAD ARDAL ALLANOL YSGOL PLASCRUG


Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug yn ysgol i dros 400 o blant aml-ddiwylliannol, gyda dros 40 iaith cyntaf gwahanol. Mae'r ysgol yn ffodus iawn i gael cae chwarae, llyn, ac ardal goedwig bach, sydd i gyd yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion ac amryw grwp cymunedol gysylltu efo natur mewn ardal diogel. Mae hefyd yn ardal pwysig iawn i nifer o deuluoedd heb gerddi.

Fodd bynnag, ers degawdau, mae'r mynediad i'r ardal goedwigoedd a cae'r ysgol wedi bod yn anhygyrch am fwyafrif o'r flwyddyn oherwydd cyflwr y tirwedd a llifogydd cyson, heb unrhyw fioamrywiaeth ystyrlon.

Dros yr 18 mis diwethaf, mae'r CRhA wedi arwain ar ymgyrch anferthol wrth godi dros £40,000 drwy grantiau gwahanol er mwyn trawsnewid ardal allanol yr ysgol mewn i ardal natur anhygoel sydd wedi ennill sawl gwobr yn genedlaethol.

## UNO DROS EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Roedd draenio'r llwybr mynediad yn amhosibl oherwydd lefel dŵr uchel o'r afon a arferai lifo drwy'r tiroedd. Penderfynodd y CRhA "weithio gyda'r dŵr", ac – ar ôl sicrhau nifer o grantiau yn llwyddiannus – ym mis Rhagfyr 2024 comisiynodd arddwr tirwedd lleol, ML Landscapes, i adeiladu llwybr pren 100m o hyd sy'n cysylltu'r ardal goncrit ger prif adeiladau'r ysgol â'r cae. Mae'r prosiect wedi cyfuno'n llwyddiannus gyfraniadau mewn nwyddau o hadau a phlanhigion blodau gwyllt o randiroedd lleol, a dros 200 o bobl – yn ymestyn dros dri chenhedlaeth – o'r gymuned leol yn gwirfoddoli mewn digwyddiadau "tacluso" ar benwythnosau.

Mae ffotograffau cyn ac ar ôl yn dangos rhywfaint o'r trawsnewidiad dramatig o ardal awyr agored Ysgol Plascrug.

Mae disgyblion yn cymryd balchder mawr a pherchnogaeth o dir yr ysgol drwy amserlenni plannu a dyfrio, gweithgareddau ysgol goedwig, a chymryd rhan mewn sesiynau tacluso. Mae'r twnnel polythen newydd yn galluogi plant, llawer ohonynt sydd heb gerddi, i arsylwi planhigion yn tyfu o had i blât drwy gyfranogiad ymarferol.



Mae disgyblion Ysgol Plascrug yn tyfu tomatos ei hun yn y twnnel polythen.

Agorwyd yr ardal natur yn swyddogol gan Elin Jones AS yn ffair haf Ysgol Plascrug ym mis Mehefin 2025. Dywedodd Elin:

*"Mae'n agor mynediad at natur ac yn agor gweithgareddau awyr agored, sy'n bwysicach fyth mewn trefi prysur fel Aberystwyth, fel bod pobl yng nghanol y trefi hynny'n cael y mynediad sydd ei angen arnynt at fannau awyr agored ac at natur. Bydd y gwaith hwn yn gwneud y gweithgareddau hynny'n hygyrch i bawb."*



Michael Allman, Cadeirydd corff llywodraethu Ysgol Plascrug, Hannah Lee a Joanna Jordan o'r PTA, y Pennaeth Carol Macy, Elin Jones AS, Steve Williams, Rheolwr Asedau a Chyfleusterau Cyngor Tref Aberystwyth, a'r Cynghorydd Alun Williams. (Llun: Julie McNicholls Vale).

Ysgogodd y prosiect hefyd ymweliad gan Aelod Seneddol Ceredigion Preseli, Ben Lake, i weld y trawsnewidiad â'i lygaid ei hun ym mis Hydref 2025. Dywedodd Ben Lake:

*"Mae wedi bod yn hyfryd ymweld ag Ysgol Plascrug heddiw a gweld y llwybr pren newydd, sy'n wych. Mae aelodau'r Cyngor Eco wedi ein tywys o gwmpas ac wedi esbonio pa gymaint o wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'w gallu i fwynhau'r darn hyfryd hwn o natur sydd ganddynt ar dir yr ysgol."*



Roedd y Pennaeth Carol Macy, yn y canol, yn falch iawn o groesawu Aelod Seneddol Ben Lake, y Cynghorydd Wyn Thomas, a staff Cyngor Ceredigion i Ysgol Plascrug. (Llun: Julie McNicholls Vale).

**<u>CYDNABYDDIAETH GENEDLAETHOL</u>**

Cafodd prosiect arloesol Ysgol Plascrug ei gydnabod yng Ngwobrau Cadwch Gymru'n Daclus 2025, gan ennill y wobr "Uno dros Effaith Amgylcheddol", a hi oedd yr unig sefydliad yng Ngheredigion i ennill gwobr Cadwch Gymru'n Daclus yn 2025. Dyma'r dyfyniad:

*"Mae gardd gymunedol Ysgol Plascrug wedi uno pobl o bob cefndir. Bu mwy na 200 o wirfoddolwyr – gan gynnwys disgyblion, rhieni, athrawon a grwpiau lleol eraill – yn cydweithio i droi ardal fwdlyd, anodd ei chyrraedd, yn fan gwyrdd bywiog a hygyrch. Trwy adeiladu llwybr pren a thwnnel polythen, maent wedi creu lle ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a mwynhau natur drwy gydol y flwyddyn. Mae'r prosiect yn dangos sut y gall gweledigaeth gyffredin adeiladu cymuned gydlynol a gofod croesawgar i bawb."*

Dywedodd y Pennaeth Carol Macy:

*"Mae ein llwybr pren newydd a'r ardal natur wedi bod yn allweddol wrth ein galluogi i gael ein cannoedd o blant allan – ar gyfer chwarae a dysgu fel ei gilydd – yng nghanol natur mor aml â phosibl, yn ogystal â darparu adnodd sydd wedi'i wella'n sylweddol ar gyfer grwpiau cymunedol lleol. Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar y cyllid gan Gynllun Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru – drwy Bartneriaeth Natur Ceredigion, Cyngor Tref Aberystwyth, CKs, Ymddiriedolaeth Cofeb Ryfel Aberystwyth, a Learning Through Landscapes – sydd wedi gwneud y gwaith trawsnewidiol hwn yn bosibl."*

Ym mis Tachwedd 2025, enillodd Plascrug wobr CRhA Ysgol Gynradd y Flwyddyn yng Ngwobrau PTA Parentkind ledled y DU am ddatblygu ei amgylcheddau awyr agored gyda chyfraniad disgyblion, cynnwys gwirfoddolwyr, a hybu addysg amgylcheddol. Mae'r elusen Parentkind yn y corff aelodaeth mwyaf o Gymdeithasau Rhieni a Thwyrwyr a grwpiau rhieni eraill ledled y DU, gyda dros 12,500 o CRhA'au yn ei chynnwys.

Dywedodd Alex Peace-Gadsby OBE, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Parentkind a gynhaliodd y gwobrau:

*"Mae'r ysgol yn dilyn menter Ysgolion Eco sy'n annog cyfranogiad disgyblion gyda chynaliadwyedd, ac fe gyrhaeddodd Safle Platinwm am hyn yn 2016, felly gallwch weld pa mor ddifrifol y mae'n cymryd y gwaith parhaus hwn."*




Gwirfoddolwyr yn plannu mewn digwyddiad "tacluso" penwythnosol yn Ysgol Plascrug.

Dywedodd y Pennaeth Carol Macy:
*"Mae trawsnewid amgylchedd awyr agored Ysgol Plascrug wedi cael effaith gadarnhaol enfawr, ac rydym wrth ein bodd bod gwaith caled cymuned yr ysgol wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol! Gan fod llawer o'n disgyblion yn byw yn y dref, mae'r datblygiadau hyn yn darparu cyfle unigryw i blant adeiladu perthnasoedd parhaus â gofod naturiol dros nifer o flynyddoedd. Mewn amser pan nad yw mwy a mwy o blant yn cael eu cyflwyno i'r awyr agored, mae manteision y prosiect hwn yn eang ac yn barhaol. Mae tir yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i grwpiau cymunedol y tu hwnt i'n cymuned ysgol amrywiol i fanteisio ar ofod gwyrdd a choediog sydd o fewn pellter cerdded hawdd o'r dref!"*

Cafodd ardal awyr agored Ysgol Plascrug ei nodi ar Prynhawn Da S4C (13 Tachwedd 2025) a gellir ei ddarllen yn erthygl Cambrian News, gyda chaniatâd Tinopolis/S4C.

Yn ddiweddar, mae Cyngor Eco Plascrug wedi llwyddo gyda'i gais i'r Woodland Trust i ariannu 60 o goed, ac mae Plascrug wedi sicrhau pecynnau "School Orchard" a "Food Growing Garden" gan Keep Wales Tidy i ddatblygu'r ardal awyr agored ymhellach. Cafodd hefyd'i rhestri ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Sefydliad Cymunedol "Caru Ceredigion" Cyngor Ceredigion ym mis Rhagfyr 2025.